# Cynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

# Adroddiad Cryno o'r Adborth

**Mawrth 2026**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.  This document is available in English.

## Adroddiad Cryno o'r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

### Cynnwys


Pwrpas yr adroddiad hwn ........ 3

Dadansoddi'r adborth i'r dyluniad cysyniadol ........ 3

Data meintiol ........ 3

Data ansoddol ........ 4

1. A oes gennych unrhyw adborth dechreuol am y cynigion? ........ 4

2. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei newid neu ei wella? ........ 9

Sesiwn Galw Heibio, Canolfan Ieuenctid y Rhyl ........ 9

Casgliad ........ 9

Y Camau Nesaf ........ 10

**Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref**

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o’r adborth a gafwyd ynglŷn â’r Cynllun Gwella arfaethedig ar gyfer Parth Cyhoeddus Canol Tref y Rhyl Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y cynigion cyffredinol, ond caiff safbwyntiau budd-ddeiliaid a chymuned ehangach y Rhyl eu hystyried wrth lunio dyluniad manwl y cynllun.

## Dadansoddi’r adborth i’r dyluniad cysyniadol

Rhannodd y Cyngor y dyluniad ar-lein; cyflwynodd luniadau a delweddau mewn sesiwn galw heibio yng Nghanolfan Ieuenctid y Rhyl, a rhannodd luniadau yn Llyfrgell y Rhyl rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 5 Ionawr 2026. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd ar y gwelliannau arfaethedig i’r parth cyhoeddus yng nghanol tref y Rhyl. Gwnaed 62 o ymatebion yn uniongyrchol drwy dudalen we Ymgynghoriadau Sir Ddinbych neu drwy holiaduron papur wedi'u cwblhau.

## Data meintiol

Casglwyd data i’n helpu i ddeall beth hoffai pobl ei weld yn cael ei wella yng nghanol y dref fel rhan o’r cynllun hwn.

**Pa rai o'r canlynol sy’n berthnasol i chi?**

| Ymateb | Nifer yr Ymatebwyr | Canran (%) yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Rwy’n byw neu’n gweithio mewn eiddo yn y Rhyl | **51** | **82** |
| Rwy’n berchennog busnes yn y Rhyl | **2** | **3** |
| Rwy’n ymweld â’r ardal o’r tu allan i’r Rhyl | **6** | **10** |
| Rwy’n Aelod Etholedig sy’n gwasanaethu’r Rhyl, neu’r gymuned leol ehangach | **2** | **3** |
| Arall | **1** | **2** |

# Adroddiad Cryno o'r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref

## Data ansoddol

## 1. A oes gennych unrhyw adborth dechreuol am y cynigion?

Roedd yr adborth yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau. Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r buddsoddiad yng nghanol y dref ac yn cefnogi'r gwelliannau i'r parth cyhoeddus. Mynegodd eraill bryderon am ddiogelwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol, dirywiad economaidd, a'r angen am wybodaeth gliriach ynghylch y cynigion.

Mae'r canlynol yn grynodeb o sylwadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr sy'n ein helpu i ddeall beth yr hoffent ei weld yn cael ei wella yng nghanol y dref fel rhan o'r cynllun hwn yn ogystal â'r hyn y maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi am y cynigion.

### 1.1 Traffig, Mynediad a Symudiad

Mynegodd yr ymatebwyr farn gymysg ar newidiadau arfaethedig i lif traffig:

- Pryderon am dagfeydd o amgylch tŵr y cloc a'r posibilrwydd o gulhau lonydd. Bydd gwaith modelu traffig a dylunio manwl yn parhau i asesu'r materion hyn er mwyn sicrhau capasiti priodol a symud diogel.
- Cwestiynau ynglŷn â sut y bydd y Stryd Fawr yn cysylltu â meysydd parcio gerllaw. Mae cysylltedd a hygyrchedd yn dal i fod yn ystyriaethau allweddol o fewn y broses ddylunio. Bydd gwell arwyddion yn rhan o ddyluniad y cynllun.
- Barn gymysg am barthau cerddwyr yn unig: mae rhai'n cefnogi hyn, tra bod eraill yn mynegi'n gryf y byddai'n well ganddynt weld y Stryd Fawr yn ailagor i gerbydau. Tra ein bod yn derbyn y gwahaniaeth barn hwn, dymunir gweld gwelliannau ar y Stryd Fawr ac mae cyllid wedi'i ddarparu i wneud hyn.
- Ceisiadau am gyfathrebu clir ynghylch unrhyw amhariad yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu diweddariadau amserol a gwybodaeth glir trwy gydol y cyfnod cyflawni, caiff hyn ei wneud trwy gysylltu o ddydd i ddydd a thrwy ddiweddaru tudalennau gwe ac ati.
- Ymholiadau am folardiau sy'n codi, gyda phryderon am effaith tywod ar eu gweithrediad. Bydd asesiadau technegol yn sicrhau bod unrhyw systemau a osodir yn briodol ar gyfer yr amgylchedd arfordirol.

### 1.2 Diogelwch, Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Diogelwch oedd un o'r materion a grybwyllwyd fwyaf.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai seddi newydd neu fannau gwyrdd ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r cynllun yn anelu at greu mannau cynhwysol a chroesawgar i bob defnyddiwr. Parheir i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol.
- Roedd nifer o sylwadau'n tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â defnyddio cyffuriau, yfed ar y stryd a grwpiau'n ymgynnull wrth ymyl McDonald's. Er bod y materion hyn yn ymestyn y tu hwnt i gwmpas y dyluniad ffisegol, maent yn cael eu cydnabod fel materion pwysig i'r gymuned ehangach ac eir i'r afael â nhw mewn partneriaeth ag awdurdodau.
- Ceisiadau am deledu cylch cyfyng ychwanegol a gwella goleuadau. Caiff gwelliannau i wyliadwraeth naturiol, goleuadau a diogelwch cyffredinol eu gwerthuso yn ystod y cyfnod dylunio manwl a'u hymgorffori lle bo hynny'n ddichonol o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Awgrymiadau ar gyfer "dylunio rhag trosedd" trwy osod coed, seddi a thirlunio yn ofalus. Bydd y Cyngor yn cymhwyso egwyddorion dylunio a gydnabyddir i hyrwyddo diogelwch a gwelededd.
- Teimlai rhai ymatebwyr na fyddai gwelliannau ffisegol yn unig yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol dyfnach. Er bod y cynllun yn canolbwyntio ar wella'r parth cyhoeddus, mae'n ffurfio rhan o ymdrechion adfywio ehangach sy'n digwydd ledled y Rhyl.

### 1.3 Dyluniad a Deunyddiau ar gyfer y Parth Cyhoeddus

Adborth am elfennau dylunio a gynhwysir:

- Cefnogaeth ar gyfer mwy o wyrddni, coed a deunyddiau o ansawdd uchel.
- Pryderon ynghylch creu ardaloedd cudd neu gysgodol a allai deimlo'n anniogel. Bydd yr ystyriaethau hyn yn sail i benderfyniadau manwl ynghylch gosodiad a thirlunio.
- Barn gymysg am seddi: roedd rhai'n croesawu mwy o leoedd i orffwys, tra bod eraill yn ofni y byddai'n annog pobl i loetran. Mae'r cynllun yn ceisio darparu cyfleoedd

priodol i orffwys a rhyngweithio cymdeithasol gan sicrhau dyluniad, gweledедd a rheolaeth dda.
- Ceisiadau i gadw tŵr y cloc yn ei leoliad presennol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bydd tŵr y cloc yn aros yn ei leoliad presennol. Trwy ymestyn y parth i gerddwyr yn unig bydd tŵr y cloc yn dod yn fwy integredig yn amgylchedd canol y dref.
- Awgrymiadau i ddefnyddio deunyddiau lleol. Bydd y Cyngor yn ceisio cefnogi cadwyni cyflenwi lleol lle bo hynny'n ddichonol a phriodol, ac mae dangosyddion perfformiad allweddol yn y contract i sicrhau hyn.
- Sylwadau am balmantau: roedd yn well gan rai slabiau llwyd tra bod eraill eisiau cadw'r gwaith brics presennol. Bydd y fanyleb derfynol yn anelu at gyflawni gorffeniad deniadol, cadarn a chynaliadwy y gellir ei efelychu mewn camau yn y dyfodol.

### 1.4 Hyfywedd Busnesau, yr Economi a'r Stryd Fawr

Teimlai llawer o ymatebwyr bod yn rhaid i wella ymddangosiad canol y dref fynd law yn llaw ag adfywiad economaidd.

- Pryderon cryf am siopau gwag, rhenti uchel ac amlygrwydd y siopau disgownt ac elusennol. Bwriad buddsoddi yn y parth cyhoeddus yw cyflenwi mentrau adfywio ehangach a gwella'r amgylchedd i fusnesau ac ymwelwyr. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli un elfen o becyn ehangach o fentrau sy'n anelu at gefnogi busnesau a llywio adfywio.
- Galw ar fesurau i ddenu busnesau newydd a chefnogi rhai presennol. Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd ar fentrau ychwanegol, gan gynnwys grantiau gwella blaen siopau a mesurau eraill i gefnogi busnesau. Mae Tîm Datblygu Busnes Economaidd Sir Ddinbych yn cynnig Grant Datblygu Eiddo Trawsnewid Trefi. Cafwyd 41 o geisiadau hyd yma. Gall unrhyw un sydd â diddordeb gael rhagor o wybodaeth am y cynllun yma - https://www.denbighshire.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/adfywio/trawsnewid-trefi/grant-datblygu-eiddo-trawsnewid-trefi.aspx
- Awgrymiadau am farchnadoedd, digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd i gynyddu niferoedd ymwelwyr. Bydd gwella'r parth cyhoeddus yn helpu i greu mannau hyblyg sy'n gallu cefnogi dibenion o'r fath.
- Ceisiadau am grantiau i wella blaen siopau a gorfodi cynnal a chadw adeiladau. Mae gwaith yn parhau i wella safonau eiddo ac annog buddsoddiad. Mae Tîm

Datblygu Busnes Economaidd Sir Ddinbych yn gweithredu 'Cynllun Gwella'r Stryd Fawr' ar gyfer eiddo yn y parthau cerddwyr yn unig ar Stryd Fawr y Rhyl a strydoedd cyfagos Stryd Sussex a Stryd y Farchnad. Nod y fenter yw helpu i wella golwg allanol eiddo'r Stryd Fawr, trwy ddefnyddio amrywiaeth o waith gwella sylfaenol.

- Awgrymiadau i annog "byw uwchben y siop" i greu canol tref sy'n fwy bywiog a diogel. Mae'r dull gweithredu hwn yn gydnaws â'r amcanion adfywio ehangach sydd eisoes yn cael eu datblygu.

### 1.5 Integreiddio Twristiaeth a Glan y Môr

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd hunaniaeth glan môr y Rhyl.

- Cwestiynau am sut y byddai'r cynigion yn cefnogi twristiaeth. Bwriedir gwella ansawdd ac ymddangosiad y parth cyhoeddus er mwyn gwella'r profiad cyffredinol i ymwelwyr.
- Galw i ddiweddaru Pentref y Plant a darparu mwy o atyniadau dan do trwy gydol y flwyddyn. Mae buddsoddi mewn cyfleusterau megis Marchnad y Frenhines yn cyfrannu at yr amcan ehangach hwn.
- Awgrymiadau i ddod â digwyddiadau poblogaidd yn ôl megis y sioe awyr. Mae'r ffrwd gyllido hon yn un cyfalaf yn unig ac ni all gefnogi costau refeniw, gellir ystyried dulliau gweithredu mewn partneriaeth ar wahân.
- Ceisiadau i agor golygfeydd o'r môr o'r Stryd Fawr. Oherwydd yr angen i gadw amddiffynfeydd llifogydd byddai'n amhosibl agor golygfeydd o'r môr, fodd bynnag un o nodweddion allweddol y prosiect yw gwella mynediad uniongyrchol i'r traeth a darparu arwyddion i wneud ymwelwyr yn ymwybodol o'i agosrwydd.
- Sylwadau am wella ardaloedd chwarae a darparu mwy ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Er bod cyllid y Gronfa Adfywio Leol yn canolbwyntio ar welliannau penodol i'r parth cyhoeddus, mae'r dyheadau ehangach hyn yn cael eu cydnabod ond nid ydynt yn ffurfio rhan o'r prosiect hwn.

### 1.6 Cynnal a Chadw a Gofal Hirdymor

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr pa mor bwysig yw gwaith cynnal a chadw parhaus.

- Pryderon y gallai mannau newydd ddirywio heb gynnal a chadw priodol. Mae'r cynllun yn anelu at newid isadeiledd sy'n heneiddio am ddeunyddiau gwydn sydd wedi'u llunio i'w gwneud yn haws i'w cynnal a'u cadw.
- Ceisiadau am wella gwaith glanhau ac atgyweirio. Er bod cyllid refeniw y tu hwnt i gwmpas y grant cyfalaf hwn, mae goblygiadau cynnal a chadw yn cael eu hystyried yn ofalus.
- Sylwadau am broblemau â'r palmentydd presennol ac adeiladau preifat wedi'u hesgeuluso. Mae'r cynllun yn cynnwys gwelliannau wedi'u targedu ar gyfer palmentydd fel rhan o waith uwchraddio ehangach.
- Galw ar fusnesau i gymryd cyfrifoldeb dros flaen eu hadeiladau eu hunain. Mae Tîm Datblygu Busnes Economaidd Sir Ddinbych yn cynnig Grant Datblygu Eiddo

  Trawsnewid Trefi. Cafwyd 41 o geisiadau hyd yma. Gall unrhyw un sydd â diddordeb gael rhagor o wybodaeth am y cynllun yma - - https://www.denbighshire.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/adfywio/trawsnewid-trefi/grant-datblygu-eiddo-trawsnewid-trefi.aspx

### 1.7 Y Broses Ymgynghori a Chyfathrebu

Soniodd nifer o ymatebwyr am y broses ymgynghori ei hun.

- Teimlai llawer nad oedd digon o fanylion yn cael eu darparu, yn enwedig ar-lein.
- Ceisiadau am fapiau, byrddau gweledol a gwybodaeth ddylunio fwy clir. Mae'r Cyngor wedi nodi'ch sylwadau'n ofalus. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi, gan gynnwys diweddariadau trwy'r wasg a sianeli cyfathrebu eraill.
- Mynegodd rai pobl rwystredigaeth neu ddiffyg ymddiriedaeth, gan deimlo bod penderfyniadau eisoes wedi cael eu gwneud. Er bod gan y cyllid grant amcanion diffiniedig, mae adborth gan y gymuned yn dal i hysbysu penderfyniadau manwl am ddyluniad cymaint ag sy'n bosibl.
- Galw am gyfathrebu mwy tryloyw ac ymgysylltu cryfach â thrigolion lleol. Mae'r Cyngor wedi nodi'ch sylwadau'n ofalus. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi, gan gynnwys diweddariadau trwy'r wasg a sianeli cyfathrebu eraill.

**Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref**

## 2. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei newid neu ei wella?

Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr ddiffyg boddhad cryf, ond nid oedd hynny o reidrwydd yn ymwneud yn uniongyrchol â’r cynllun. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio ar:

- Y canfyddiad o ddiffyg gweithredu ar ddefnyddio cyffuriau, digartrefedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Credir nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn gwrando ar drigolion.
- Pryderon y bydd mannau newydd yn cael eu camddefnyddio neu eu hesgeuluso.
- Rhwystredigaeth ynghylch dirywiad economaidd hirdymor a phenderfyniadau yn y gorffennol.

Mae’r safbwyntiau hyn yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltiad parhaus a gweithio mewn partneriaeth. Er bo grant y Gronfa Adfywio Leol wedi’i lunio’n arbennig ar gyfer gwelliannau cyfalaf i’r parth cyhoeddus ac yn methu â

mynd i’r afael â’r holl faterion cymdeithasol neu economaidd sylfaenol, caiff adborth ei rannu gyda thimau mewnol perthnasol a phartneriaid allanol lle bo hynny’n briodol.

## Sesiwn Galw Heibio, Canolfan Ieuenctid y Rhyl

Mynychodd 29 o bobl sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid y Rhyl ar 9 Rhagfyr 2025. Mae’n bwysig nodi na roddodd pob mynychwr sylwadau yn ystod y dydd, ond gofynnwyd i bawb gwblhau’r ymgynghoriad ar-lein i rannu eu barn.
Bydd yr holl sylwadau ac arsylwadau a rannwyd ar y dydd yn helpu i fod yn sail i’r dyluniad manwl ynghyd â’r adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

## Casgliad

Mae’r adborth a gafwyd yn dangos bod cefnogaeth eang i wella mannau cyhoeddus y Rhyl, ond hoffai trigolion ac ymwelwyr weld gwelliannau sy’n mynd i’r afael â materion dyfnach sy’n effeithio ar y dref. Mae diogelwch, adfywio economaidd, cynnal a chadw ac ymgysylltiad cymunedol ystyrlon yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn i’r cynllun gwella fod yn llwyddiannus.

**Adroddiad Cryno o’r Adborth i Gynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref**

Mae’r adborth a gasglwyd yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i flaenoriaethau lleol a bydd yn helpu i siapio’r camau nesaf o ran dylunio a gwneud penderfyniadau.

## Y Camau Nesaf

Hoffai’r Cyngor achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am rannu eu syniadau a’u safbwyntiau am gynigion Cynllun Gwella Promenâd Canolog y Rhyl a Pharth Cyhoeddus Canol y Dref. Bydd hyn yn helpu i lywio'r dyluniad manwl ar gyfer y cynllun.

O ran ymgynghori ac ymgysylltu, ni fyddwn yn gofyn am unrhyw adborth pellach ar hyn o bryd ond byddwn yn ymgynghori ymhellach unwaith y bydd y dyluniad manwl wedi'i gwblhau.